



GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

ARCHWILIAD O GYFRIFON 2016-17

Rhoddir rhybudd trwy hyn, yn unol ag Adrannau 30 a 31 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014:

1. O 24 Medi 2018 hyd at 19 Hydref 2018, yn cynnwys y dyddiadau hynny, rhwng 9.15am a 4.00pm (o ddydd Llun i ddydd Gwener), y gall unrhyw un sydd â diddordeb gyflwyno cais i Bennaeth y Gwasanaethau Ariannol, Pencadlys y Gwasanaeth Tân, Caerfyrddin, SA31 1SP, i archwilio a gwneud copiâu o gyfrifon yr Awdurdod a enwir uchod, gan gynnwys yr holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau sy'n berthnasol i'r cyfrifon hynny, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017.

2. Ar 22 Hydref 2018 am 9.30am, y bydd yr Archwilydd Penodedig ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân, Caerfyrddin, SA31 1SP, ar gais unrhyw etholwr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal y mae'r cyfrifon yn berthnasol iddi, yn rhoi cyfle i'r etholwr hwnnw, neu ei gynrychiolydd, ei holi ynghylch y cyfrifon, ac y gall unrhyw gyfryw etholwr, neu ei gynrychiolydd, fynd gerbron yr Archwilydd i leisio gwrthwynebiad:

a. ynghylch unrhyw fater y gallai'r Archwilydd gymryd camau mewn perthynas ag ef o dan Adran 32 o'r Ddeddf neu,

b. ynghylch unrhyw fater y gallai'r Archwilydd lunio adroddiad amdano er budd y cyhoedd o dan Adran 22 o'r Ddeddf.

3. Na ellir lleisio unrhyw wrthwynebiad oni bai fod yr Archwilydd wedi cael rhybudd ymlaen llaw am y gwrthwynebiad, ynghyd â sail y gwrthwynebiad, a bod copi o'r cyfryw rybudd yn cael ei anfon at y corff y mae ei gyfrifon yn destun yr archwiliad.

Ysgrifennwch lythyr atom yn: Pencadlys y Gwasanaeth Tân, Caerfyrddin, SA31 1SP neu ffoniwch 01267 226870

Rhoddir copiâu o'r Datganiad o Gyfrifon i unrhyw gyfryw etholwr wedi iddo dalu swm o £10.00 + TAW am bob copi.